

PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

RADON MEWN CARTREFI YNG NGHYMRU

Diben

1. Ystyried y broblem o Radon mewn cartrefi yng Nghymru a pholisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru i fynd i'r afael â hi a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd.

Crynodeb/argymhellion

2. O dan dermau Rheol Sefydlog 9.7, mae gan bob pwyllgor pwnc gyfrifoldeb i gyfrannu at ddatblygu polisïau o fewn y meysydd y mae'r Ysgrifennydd perthnasol yn y Cynulliad yn gyfrifol amdanynt ac adolygu gwariant a gweinyddu mewn perthynas â gweithredu polisïau.

Cefndir

3. Nwy ymbelydrol yw radon a greir yn naturiol. Nid oes blas, arogl na lliw iddo ac mae angen offer arbennig i'w ganfod. Fe'i canfyddir ym mhobman, fel arfer ar lefel nad yw'n peri risg difrifol. Pan fo wraniwm yn dirywio mae'n troi'n radiwm, pan fo radiwm yn dirywio mae'n troi'n radon. Canfyddir wraniwm mewn symiau bach ym mhob math o bridd a chreigiau, ac mae'r symiau'n amrywio o le i le. Mae'r amrywiadau'n fach iawn a gellir hyd yn oed canfod gwahanol lefelau o radon mewn adeiladau cyfagos.

4. Er y gellir canfod lefelau o radon ledled y DU, ceir lefelau uwch yn naeareg rhai ardaloedd. Ar ôl cynnal tua 400,000 o brofion ledled Prydain, lluniodd y Bwrdd Cenedlaethol Diogelu Radiolegol (NRPB) fapiau o'r ardaloedd yr effeithir arnynt. Mae Atodiad 1 yn dangos map yr NRPB o'r lefelau radon ledled Cymru, a gellir cael mapiau manylach o ardaloedd hefyd. Dengys y rhain mai yn y canolbarth, y gorllewin a'r gogledd y mae'r lefel uchaf o radon yng Nghymru. Nid yw'r rhan fwyaf o gartrefi'n meddu ar broblem radon, hyd yn oed cartrefi mewn ardaloedd lle ceir crynhoed uchel o radon, ond mae cyfran fach ohonynt.

5. Mae radon yn codi o'r pridd i'r awyr; yn yr awyr agored caiff ei wanhau'n gyflym ac ychydig iawn o risg y mae'n ei beri. Fodd bynnag, pan fydd radon yn treiddio o'r ddaear i leoedd caeedig, megis tai, gall y crynodaau Gronni a pheryglu iechyd pobl.

6. Mae dirywiad ymbelydrol radon yn ffurfio gronynnau a elwir yn 'ferched radon' ac wrth anadlu'r rhain caiff meinwe'r ysgyfaint ei niweidio. Mae astudiaethau iechyd ledled y byd wedi cysylltu radon â chanser yr ysgyfaint, a chydabyddir mai radon yw'r ail achos mwyaf difrifol o ganser yr ysgyfaint ar ôl ysmegu, gyda phump y cant o farwolaethau o ganser yr ysgyfaint yn y DU yn digwydd o ganlyniad i radon. Mae'r math o ganser yr ysgyfaint a achosir gan radon yn datblygu'n union yr un modd â'r canser a achosir gan ysmegu. Mae'r NRPB yn mesur lefelau radon mewn becwerelau fesul metr giwbaid ($Bq\ m^{-3}$) o aer, ac mae wedi cynghori'r Llywodraeth mai'r lefel y dylid ei hystyried fel 'lefel weithredu', pryd y dylid cymryd camau i leihau crynhoed y radon mewn cartrefi, yw $200Bq\ m^{-3}$.

Ystyried

7. Cyn 1999, a chyda chytundeb Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau (DETR), rhoddodd y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE) rywfaint o gyngor a chanllawiau i'r Swyddfa Gymreig a'r cyhoedd yng Nghymru fel rhan o raglen ymchwil radon DETR. Roedd y rhaglen hefyd yn cynnwys amrywiaeth o brofion targed a gynhaliwyd gan yr NRPB.

8. Ar ôl sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol ym 1999, cafodd y cyfrifoldeb dros faterion radon yng Nghymru eu datganoli. Yn dilyn hyn sefydlodd y Cynulliad gyllideb werth £70,000 y flwyddyn i fynd i'r afael â'r broblem radon yng Nghymru. Dyma wahanol elfennau'r rhaglen:

- codi ymwybyddiaeth y cyhoedd drwy ddarparu amrywiaeth o ddeunydd hyrwyddo (wedi'i gynhyrchu gan Lywodraeth y Cynulliad a'r NRPB) (atodiad 2);
- darparu llinell gymorth a seminarau rhagweithiol i godi ymwybyddiaeth drwy gydweithio â chyrrff proffesiynol, wedi'u gweinyddu gan BRE; a
- phrofion targed ar dai mewn ardaloedd risg uchel penodol, wedi'u cynnal ar ein rhan gan yr NRPB.

9. Cynhelir ein gwaith gyda BRE fel contract terfynu ers 1999. Nod y contract presennol, sy'n para dwy flynedd ac a fydd yn cychwyn ar ei ail flwyddyn ym mis Ebrill 2002, yw ein cynorthwyo i leihau'r risg y mae radon yn ei beri i iechyd pobl drwy roi cyngor technegol ar gamau adferol radon; cysylltu â'r awdurdodau lleol i'w hannog i ddatblygu rhwydweithiau radon lleol, eu cynorthwyo a'u cefnogi i roi ymgyrchoedd radon lleol ar waith; cydweithio'n agos â'r NRPB wrth gynnal profion targed; a darparu gwasanaeth ymgynghorol radon sy'n delio â materion adeiladu, gan gynnwys darparu canllawiau i bobl broffesiynol a'r cyhoedd, a llinell gymorth i ddelio ag ymholiadau'n ymwneud â dethol a chymryd camau cost-effeithiol, ymarferol ac addas i leihau radon. Mae'r gwaith hwn yn ategu'r profion targed a gynhaliwyd gan yr NRPB.

10. Ar ein rhan, mae'r NRPB yn parhau â rhaglen waith i fesur y lefelau o radon mewn cartrefi ledled Cymru. Y bwriad yw nodi'r cartrefi sydd â lefelau uchel o radon (ar neu uwchlaw lefel weithredu'r Llywodraeth) ac annog perchennog y ty neu'r landlord, fel y bo'n addas, i gymryd

camau adferol. Mae'r NRPB ar hyn o bryd yn targedu'r ardaloedd hynny o Wrecsam (2,217 o gartrefi) a Sir y Fflint (3,733 o gartrefi) lle'r amcangyfrifir bod y risg o ganlyniad i lefelau uchel o radon 10 y cant neu fwy. Cynhelir profion mewn rhan o Fro Morgannwg hefyd. Am gyfnod cyfyngedig, bydd y Cynulliad yn cynnig talu am fesur lefel radon y cartrefi hyn (sydd fel arfer yn costio tua £35). Bydd pob cartref sy'n ymateb yn derbyn dau ddarganfyddwr radon (y naill ar gyfer yr ystafell fyw a'r llall ar gyfer yr ystafell wely) ynghyd â chyfarwyddiadau ar sut i'w defnyddio a phe cyn dychwelyd rhagdaledig. Gadewir y darganfyddwyr am dri mis cyn eu dychwelyd i'r NRPB i gael eu dadansoddi. Bydd y cartref yn derbyn canlyniad y prawf ac eglurhad o'i arwyddocâd a bydd gwybodaeth berthnasol ychwanegol yn cael ei darparu.

11. Ar ôl cymryd camau adferol sy'n debygol o fod yn effeithiol, bydd y Cynulliad yn cynnig talu am brawf ychwanegol i'r cartrefi hynny sydd â chrynoadau o radon uwchlaw'r lefel weithredu.

12. Ymysg ardaloedd y cynhaliwyd profion targed blaenorol gan yr NRPB arnynt y mae rhannau o Ynys Môn, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Sir Benfro, Ceredigion, Powys a Chaerfyrddin. Ar hyn o bryd mae mil o anheddau wedi cael eu nodi fel rhai y mae eu lefelau radon uwchlaw'r Lefel Weithredu. Mae'r NRPB yn amcangyfrif bod tua deng mil o anheddau yng Nghymru wedi'u nodi fel rhai y mae'r lefel radon uwchlaw'r Lefel Weithredu. Mae rhagor o waith ar y gweill ag Arolwg Daearegol Prydain a'r NRPB i dargedu tai prawf yn fwy effeithiol, ond mae'r ffaith bod nifer y cartrefi sy'n ymateb i'r cynnig am brawf am ddim yn gymharol isel yn cyfyngu'n fawr ar hyn. Tua 20% yw'r gyfradd ymateb nodweddiadol.

13. Camau i wella'r broblem radon, a all gostio rhwng £20 a £750 yn dibynnu ar ddifrifoldeb y broblem a'r math o eiddo dan sylw, gan gynnwys gosod system symp radon, gwella'r system awyru a defnyddio awyru positif (chwythwyr aer) a chau craciau a bylchau mewn lloriau solet. Mae'r Rheoliadau Adeiladu, *BR211 Radon Guidance on Protective Measures for New Dwellings*, yn cydnabod pwysigrwydd diogelu addas rhag radon ac mae'n adlewyrchu'r angen am ddiogelu addas mewn cartrefi newydd. Yn ogystal, mae'n ofynnol bellach i werthwyr tai ddweud p'un a yw radon yn effeithio ar eu heiddo ai peidio (os ydynt yn gwybod) yn ystod y broses werthu.

Y Goblygiadau Ariannol

11. Mae cyllideb bresennol y Cynulliad o £70,000 yn cynnwys yr arian sy'n angenrheidiol i gadw at ein hymrwymiad i arbrofi a pharhau â'r gwaith o godi ymwybyddiaeth a sefydlu llinell gymorth, y mae'r NRPB a BRE yn ei wneud ar ein rhan.

Cydymffurfio

12. Ymgymerir â gwaith Llywodraeth y Cynulliad i fynd i'r afael â radon gan ddefnyddio pwerau o dan S.5 o Ddeddf Gwyddoniaeth a Thechnoleg 1965 - pwerau sy'n cwmpasu ymchwil ar dai a S.40 o Ddeddf Llywodraeth Cymru - y pwr i wneud unrhyw beth sy'n hwyluso, yn ffafrio

neu'n gysylltiedig ag ymarfer unrhyw un o'i swyddogaethau.

Camau i'r Pwyllgor Pwnc eu Cymryd

13. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi a gwneud sylwadau ar bolisiau radon y Llywodraeth.

Y Gangen Adeiladwaith ac Ynni Domestig - Y Gyfarwyddiaeth Dai